**Cyngor Sir Caerfyrddin**

**Cymorth Gweinyddol**

**Gweithio gyda'r Tîm Etholiadau Craidd**

Mae Swyddfa Etholiadol Sir Gaerfyrddin yn dymuno ehangu ei rhestr staff bresennol i sicrhau bod digon o staff gweinyddol achlysurol ar gael ar gyfer gwaith yn ystod cyfnodau prysur, a hynny dim ond pan fydd angen. Nid yw hon yn swydd barhaol ac nid oes sicrwydd o waith ond rhaid i chi fod ar gael i weithio ar fyr rybudd yn ystod oriau swyddfa arferol h.y., Dydd Llun - Dydd Gwener (9am - 5pm).

Mae'r dyletswyddau'n cynnwys:

Prif bwrpas y rôl hon yw cynorthwyo'r tîm etholiadau craidd i gynnal cronfa ddata gywir o etholwyr ac aelwydydd yn yr ardal ddynodedig. Mae hyn yn cynnwys prosesu ceisiadau cofrestriad treigl a'r holl ohebiaeth gysylltiedig, ymdrin ag ymholiadau gan y cyhoedd a chynrychiolwyr gwleidyddol, a phrosesu Tystysgrifau Awdurdod Pleidleisiwr a cheisiadau am bleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy.

Hefyd mae angen i ddeiliad y rôl helpu i baratoi deunyddiau hyfforddi, lleoliadau hyfforddi a gweinyddu pob dyletswydd etholiadol.

Yn ddelfrydol, rydym yn chwilio am rywun sy'n gallu gwneud y canlynol:

✓ Cydweithio ag eraill

✓ Cynnal lefel uchel o gywirdeb wrth weithio

✓ Sgiliau cyfathrebu da

✓ Gallu dilyn cyfarwyddiadau yn fanwl

Ni chaniateir i'r (Dirprwy) Swyddog Canlyniadau/Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)/Swyddog Canlyniadau Lleol/Swyddog Cyfrif gyflogi unrhyw un sy'n cyflawni neu sydd wedi cyflawni dyletswyddau ar ran unrhyw blaid wleidyddol neu ymgeisydd yn yr etholiad.

**Taliad**

Bydd y taliad yn cael ei gyfrifo fesul awr a bydd yn cael ei wneud i gyfrif banc dynodedig ar ôl y diwrnod pleidleisio.